

LLEISIAU'R DINASYDDION, NEWYDDION Y BOBL: SICRHAU BOD Y CYFRYNGAU'N GWEITHIO DROS GYMRO



Adroddiad gan y Sefydliad Materion
Cymreig, mewn partneriaeth â'r
Brifysgol Agored yng Nghymru
Tachwedd 2022



GWNEUD
CYMRU
WELL



YR AWDURON



Dylan Moore – arweinydd prosiect y Sefydliad Materion Cymreig ar y cyfryngau a democratiaeth yng Nghymru. Ef hefyd yw Golygydd cylchgrawn y Sefydliad, *the welsh agenda*.



Dr Philip Seargeant – Uwch-ddarlithydd mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol yn Y Brifysgol Agored, gan arbenigo yn y gydberthynas rhwng iaith, gwleidyddiaeth a chyfryngau cymdeithasol.



Dr Donna Smith – Uwch-ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth yn Y Brifysgol Agored, Cymrawd y Ganolfan Addysg Ar-lein ac o Bell, ac Uwch-gymrawd yr Academi Addysg Uwch, gan ganolbwyntio ar wleidyddiaeth a'r cyfryngau, dinasyddiaeth weithgar ac addysgu a dysgu.



Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Sefydlwyd y Brifysgol Agored yn 1969, a chofrestrodd ei myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae ar flaen y gad o ran darparu cyfleoedd dysgu o bell arloesol a hyblyg ar lefel addysg uwch (AU). Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o ansawdd uchel i bawb sy'n dymuno gwireddu eu huchelgais a'u potensial.

Mae mwy na 15,500 o fyfyrwyr o bob cwr o Gymru yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd. Mae gennym fyfyrwyr ym mhob un o etholaethau'r Senedd, a ni yw darparwr addysg uwch ran-amser mwyaf blaenllaw'r wlad i fyfyrwyr israddedig.

Mae bron tri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth wrth iddynt astudio, a gyda'n polisi mynediad agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae mwy na thraean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn ymuno â ni heb gymwysterau lefel mynediad prifysgol safonol.

Mae'r Brifysgol Agored wedi'i chorffori drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriadig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

I gael rhagor o wybodaeth am Y Brifysgol Agored yng Nghymru, ewch i www.open.ac.uk/wales/cy.

Y SEFYDLIAD MATERION CYMREIG

Rydym yn felin drafod ac yn elusen, sy'n annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol.

Drwy ddod ag arbenigwyr o bob cefndir ynghyd, rydym yn creu syniadau uchelgeisiol a hyddysg sy'n sicrhau ymrwymiadau gwleidyddol i wella ein democratiaeth, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi.

Rydym yn cynnig llwyfannau i drafod, cyfleoedd i bobl leisio eu barn, ac ymchwil gosod agenda. Cawn ein hariannu gan ein haelodau a thrwy incwm o'n digwyddiadau a'n sesiynau hyfforddi, a'n noddi gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrff cyllido eraill. Rydym yn falch o fod wedi ymrwymo i addewid Dim Hiliaeth Cymru, o fod yn gyflogwr Cyflog Byw ac o feddu ar Farc Elusen Ddibynadwy Lefel Un NCVO.

Ein gweledigaeth yw creu Cymru lle y gall pawb ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Sefydliad Materion Cymreig, ein gwaith polisi, a sut i ymuno, nall ai fel noddwr unigol neu sefydliadol, cysylltwch â:

Y Sefydliad Materion Cymreig, Ystafell 6.01, sbarc, Heol y Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ
ffôn: 029 2048 4387

e-bost: info@iwa.org.uk


www.iwa.wales

Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1078435
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 02151006



**GWNEUD
CYMRU
WELL**

Noddir cyfraniad y Sefydliad Materion Cymreig at y gwaith hwn gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree.



Cynhaliwyd Panel y Dinasyddion mewn cydweithrediad â'r partneriaid canlynol:



RHAGAIR

Wrth siarad yng Nghynhadledd Banc y Byd yn 1997, dywedodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar y pryd, Kofi Annan, *"The information revolution is unthinkable without democracy, and true democracy is unimaginable without freedom of information."*

Aeth ymlaen i ddadlau *"an educated electorate is a powerful electorate. An informed citizenry is the greatest defender of freedom. An enlightened government is a democratising government."*

Mae'r cwestiwn hwnnw o ran pa wybodaeth y mae gan ddinasyddion fynediad iddi, ac i ba raddau y cânt eu grymuso i'w dadansoddi'n feirniadol, wrth wraidd ein democratiaeth ni.

Yn anffodus, mae'r cysyniad o wirionedd wedi dod yn destun dadl. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r syniad y gall fod ffeithiau ar y naill law, a 'ffeithiau amgen' ar y llall wedi ennill ei phlwyf ymhlith cyfran sylweddol o boblogaeth y byd.

Ymddengys, efallai drwy anwybodaeth, neu am ein bod wedi dod yn llai sensitif, y gall gwirionedd gwrthrychol y gellir ei ddilysu gael ei ddiystyru fel 'newyddion ffug'; y gall gwybodaeth bwysig am lywodraethiant cymdeithas gael ei hystumio neu ei chuddio; ac nad oes angen arbenigwyr yn yr oes sydd ohoni.

Mae'n well peidio â throedio'r llwybr peryglus hwn.

Mae'r rhain yn faterion mawr, ac yn sicr nid yn rhai y gallwn fynd i'r afael â nhw yn annibynnol. Fodd bynnag, gall pob un ohonom weithredu o fewn ein rhwydweithiau a'n meysydd dylanwad ein hunain i atgyfnerthu a diogelu ein democratiaeth, i rymuso ein dinasyddion, ac i ledaenu gwybodaeth i bawb.

Ac er bod democratiaeth yn rhywbeth cymharol newydd o hyd, gall Cymru fod ar flaen y gad wrth ddemocrateiddio gwybodaeth. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau nid yn unig fod ein dinasyddion yn gallu cael gafael ar wybodaeth, ond hefyd eu bod yn gallu ei deall ac, yn hollbwysig, ei defnyddio.

Bydd pob un ohonom yn elwa ar hynny.

Mae hyn yn waith brys, ac mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i'w arwain, o'r llywodraeth a'r cyfryngau i ddarparwyr addysg a melinau trafod, i gynrychiolwyr a dinasyddion fel ei gilydd.

Ein gobaith yw y gall y prosiect hwn, sydd wedi dod â'n dau sefydliad ynghyd, fod yn sbardun i ddatblygu ateb i Gymru i'r her gymdeithasol fyd-eang hon. Rydym yn barod i chwarae ein rhan.

O ran Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig, mae ein gwaith yn y maes hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad cyffredin i'r rôl rydym yn ei chwarae ym mywyd cyhoeddus Cymru: i rymuso, cynnwys ac ysbrydoli ein pobl, ac i sbarduno newid er gwell.

Ymunwch â ni yn y dasg bwysig hon.

Louise Casella

Cyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Auriol Miller

Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig

CYFLWYNIAD

Comisiynwyd yr ymchwil hon gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig, sy'n cydweithio â dinasyddion Cymru i ystyried sut y gellir gwella mynediad at y cyfryngau, newyddion a gwybodaeth yng Nghymru, a dealltwriaeth ohonynt, yn enwedig yn oes y 'newyddion ffug'

Rydym am ddeall o ble y mae pobl yn cael eu gwybodaeth a'u newyddion, i ba raddau y maent yn ymddiried yn y wybodaeth a'r newyddion hynny, a sut maent yn gwneud iddynt feddwl a themlo am wleidyddiaeth yng Nghymru.

A yw'r wybodaeth y mae pobl yn ei darllen a'i rhannu yn gywir? A yw'n annog pobl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, neu'n eu hatal rhag gwneud hynny. I ba raddau y mae'r newyddion yn helpu dinasyddion Cymru i ddeall gwleidyddiaeth?

Rydym am ddeall pa fesurau sydd eu hangen i wella sut mae'r cyfryngau'n gweithio yng Nghymru. Rydym wedi gweithio'n agos gyda dinasyddion i wneud argymhellion a fydd, gobeithio, yn llywio ac yn dylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd ym meysydd rheoleiddio'r cyfryngau a darlledu, cymorth ariannol ar gyfer y cyfryngau, darpariaeth addysgol ac atgyfnerthu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Y syniad y tu ôl i bob un o'r argymhellion yw bod ffynonellau dibynadwy o newyddion a gwybodaeth yn hanfodol er mwyn i ddemocratiaeth ffynnu, gan eu bod yn galluogi pobl i wneud dewisiadau hyddysg am faterion sy'n bwysig iddynt.

Cafodd Y Brifysgol Agored a'r Sefydliad Materion Cymreig gymorth wrth gynnal yr ymchwil gan Sefydliad Sortition, a recriwtiodd gyfranogwyr ar gyfer Panel y Dinasyddion, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach, a Mutual Gain, a helpodd i ddylunio a chyflawni'r gwaith.

Yn ystod haf 2022, cafodd 15 o ddinasyddion lleol o bob cwr o Gymru eu recriwtio i ddod ynghyd i rannu gwersi a ddysgwyd ag amrywiaeth o 'dystion arbenigol', dan arweiniad hwyluswyr annibynnol. Daeth aelodau'r panel ynghyd ar-lein i drafod, dadlau a dysgu gyda'i gilydd, gan fynd ati wedyn i gyflwyno argymhellion a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwn. Mae'r atodiad i'r adroddiad hwn yn esbonio'r broses yn fanylach.

Mae'r argymhellion terfynol a wnaed gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig yn deillio o ddadansoddiad arbenigol o'r gwersi a ddysgwyd gan Banel y Dinasyddion, ei drafodaethau, ei ystyriaethau a'i argymhellion, ynghyd â dadansoddiad ehangach o'r cyd-destun presennol o ran y cyfryngau, diwylliant a gwleidyddiaeth yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r argymhellion a'n dadansoddiad.

Penderfynodd Panel y Dinasyddion ganolbwyntio ar dri maes ehangach lle roedd angen ymyrryd: Rheoleiddio'r Cyfryngau, Addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth a Chydnabod Cymreictod. Rydym wedi cadw'r ffocws a'r meysydd hyn fel teitlau penodau ar gyfer yr adroddiad hwn, ac er mwyn cadw at ysbryd y broses, rydym wedi cynnwys geiriad gwreiddiol yr argymhellion a wnaed gan y Panel fel rhan o'n naratif. Dim ond lle roedd y gorgyffwrdd yn ddigon sylweddol i warantu hynny'n rhesymol y mae argymhellion wedi'u hepgor neu eu symud i adrannau gwahanol i'r rheini a gynigiwyd gan y Panel.

1

EIN
HARGYMHELLION

EIN HARGYMHELLION

Mae ein hargymhellion yn mynd i'r afael â dulliau o reoleiddio'r cyfryngau, manteision mathau gwahanol o addysg am wleidyddiaeth, a phwysigrwydd cydnabod Cymreictod o ran creu tirwedd cyfryngau gwahanol ac addas at y diben sy'n diwallu anghenion dinasyddion Cymru.

Credwn mai cryfder yr argymhellion hyn yw'r lefel uchel iawn o gefnogaeth a gawsant gan amrywiaeth eang iawn o ddinasyddion o bob cwr o Gymru. Ein nod oedd i Banel y Dinasyddion adlewyrchu cyfansoddiad democrataidd poblogaeth gyfan Cymru. Lluniwyd yr argymhellion ar sail proses â throthwy uchel iawn o gytundeb, ac rydym wedi nodi lefel y gefnogaeth a ddangoswyd gan y Panel i bob un o'r argymhellion, ar ffurf canran. Felly, gallwn fod yn hyderus y byddai'r argymhellion hyn yn boblogaidd ymhlith trawstoriad eang iawn o boblogaeth Cymru.

Rydym yn cydnabod cymhlethdodau deddfwriaeth yn y maes hwn, yn enwedig mewn perthynas â rheoleiddio'r cyfryngau ac, felly, rydym wedi penderfynu ar feysydd lle y credwn y gall Llywodraeth Cymru weithredu'n gyflym i sicrhau gwelliannau sylweddol i'r cyfryngau yng Nghymru. Credwn hefyd, drwy roi gwerth mawr ar newyddiaduraeth er budd y cyhoedd a buddsoddi mewn yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol, y gall Cymru ddangos esiampl i'r gwledydd a'r rhanbarthau eraill a dylanwadu ar ddatblygiad cyfryngau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn y DU, Ewrop a thu hwnt.

Byddem hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyllid. Methiant y farchnad sydd wrth wraidd llawer o'r problemau a nodwyd ac a drafodwyd gan Banel y Dinasyddion, a heb fuddsoddiad sylweddol, bydd y cyfryngau yng Nghymru – ac felly ei democratiaeth – yn parhau i ddiodeff yn sgil y gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac mewn nifer o arolygon blaenorol. Bydd angen cryn adnoddau i roi'r argymhellion hyn ar waith yn effeithiol, ond credwn y bydd y buddsoddiad hwn yn talu ar ei ganfed o ran sicrhau dyfodol ac iechyd y cyfryngau yng Nghymru, ei democratiaeth a'i chyfranogiad gwleidyddol.

Ceir sylwebaeth a dadansoddiad manylach ar gyfer pob un o'r argymhellion yn ddiweddarach yn yr adroddiad: Rheoleiddio'r Cyfryngau (t.18), Addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth (t.22) a 'Cydnabod Cymreictod' (t.26).

RHEOLEIDDIO'R CYFRYNGAU

- 1** Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, ac yn argymhell y dylid ystyried cylch gwaith ehangach ar gyfer y corff hwn ymhellach, a fyddai'n cynnwys monitro'r holl ffynonellau cyfryngau yng Nghymru, gan gynnwys print
- 2** Argymhellwn ymhellach y dylai aelodaeth yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru fod yn gynrychioliadol ac yn amrywiol ac y dylai fod system ar gyfer ymgynghori â dinasyddion Cymru yn ehangach wrth lunio polisi rheoleiddio
- 3** Argymhellwn y dylai'r Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru ddatblygu fframwaith arferion gorau pwrpasol i Gymru y gellid mesur allbynnau newyddion yng Nghymru yn ei erbyn (a'u sgorio o ran eu dibynadwyedd mewn ffordd debyg i system sgoriau hylendid bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd) ac y gallai newyddiadurwyr (gan gynnwys hyfforddeion) ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi a meincnodi
- 4** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i wella atebolrwydd sefydliadau Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Senedd, drwy ddatganoli pwerau darlledu penodol, ac i greu sianelau y gellid eu defnyddio i archwilio atebion i'r materion trawswladol rheoleiddiol a'r rhai nad ydynt yn rheoleiddiol sy'n wynebu'r cyfryngau yng Nghymru, y DU a ledled y byd ymhellach

ADDYSG DINASYDDIAETH A DEMOCRATIAETH

- 5** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i atgyfnerthu Addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth mewn ysgolion, gan gynnwys canllawiau cliriach ar addysgu dinasyddiaeth a democratiaeth (ar lefel leol, genedlaethol a byd eang), yn ogystal â gwleidyddiaeth a hanes modern Cymru, o fewn maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau (MDPh) y Cwricwlwm i Gymru
- 6** Argymhellwn ymhellach y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cymwysterau TGAU Hanes ac Astudiaethau Cymdeithasol newydd yn cynnwys agweddau sy'n berthnasol i Gymru arwyddocaol ar wleidyddiaeth a phrosesau democrataidd
- 7** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru greu llwybrau hyfforddiant athrawon priodol, gan gynnwys TAR a hyfforddiant mewn swydd er mwyn galluogi athrawon i arbenigo mewn Astudiaethau Cymdeithasol, gan gynnwys gwleidyddiaeth

CYDNABOD CYMREICTOD

- 8 Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i 'gyllido mentrau presennol a newydd i wella newyddiaduraeth yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â diffyg gwybodaeth' ac yn argymhell y dylid dyrannu rhagor o gyllid i gefnogi newydd-ddyfodiaid o amrywiaeth eang o gefndiroedd mewn ardaloedd ledled Cymru i fanteisio ar hyfforddiant newyddiaduraeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r sylw a roddir i faterion Cymreig yn y cyfryngau, darpariaeth Gymraeg a mynd i'r afael â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- 9 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru greu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddarparu amrywiaeth o adnoddau addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ysgol ac oedolion; dylai'r rhain gael eu llunio ar y cyd â dinasyddion, eu dosbarthu drwy amrywiaeth eang o leoliadau cymunedol a sianeli cyfathrebu, a'u hategu gan ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd wedi'i hariannu'n dda, wedi'i hanelu at amrywiaeth o grwpiau gwahanol

2

**'SUT MAE'R NEWYDDION
YN EICH HELPU I
DDEALL
GWLEIDYDDIAETH?'**

'SUT MAE'R NEWYDDION YN EICH HELPU I DDEALL GWLEIDYDDIAETH?'

SAFBWYNTIAU PANEL Y DINASYDDION

Treuliodd 15 aelod Panel y Dinasyddion 19 awr gyda'i gilydd ar-lein, yn gwrandao ar arbenigwyr, yn trafod y cwestiwn allweddol ac yn ystyried pa fathau o argymhellion y gallent eu gwneud i wella'r cyfryngau yng Nghymru?

O BLE Y MAE POBL YN CAEL EU NEWYDDION?

Nid yw'n syndod, o gofio mai nod y prosiect oedd dod â grŵp o bobl ynghyd a oedd yn cynrychioli Cymru gyfan, bod y ffynonellau newyddion a nodwyd gan aelodau Panel y Dinasyddion yn amrywiol a gwahanol.

Roedd rhai o aelodau'r Panel yn troi at amrywiaeth o ffynonellau am newyddion gwleidyddol, gan gynnwys y BBC, Channel 4 News a *The Economist*, ond roedd eraill yn osgoi'r pwnc yn fwriadol a dim ond drwy gael 'cip sydyn ar y penawdau sy'n codi ar fy ffôn' neu wrando ar fwletinâu byr ar orsafoedd radio masnachol fel Heart yr oeddent yn ymwybodol o'r newyddion.

Cafodd dirywiad y wasg argraffu y cyfeirir ato'n eang ei adlewyrchu yn y sylwadau a wnaed am bapurau newydd, a ystyriwyd yn 'ddrud', ac roedd newyddion sydd am ddim ac yn hawdd cael gafael arno yn boblogaidd ymhlith y grŵp, gyda gwefannau *The Telegraph*, *The Times* a *The Guardian* yn cael eu crybwyll, ynghyd ag ap *The Guardian*. Roedd y rheini yr oedd yn well ganddynt ddarllen papur newydd yn troi at 'y *Metro* ar y trê'n yn y bore', y *Daily Mail* a'r *Mail on Sunday*.

Crybwyllwyd ffynonellau newyddion Cymraeg, ond nid bob amser mewn ffordd gadarnhaol ac nid bob amser mewn ffordd sy'n awgrymu eu bod yn troi atynt yn rhagweithiol. Roedd rhai o aelodau'r panel yn gwrandao ar Radio Cymru er mwyn eu helpu i ddsygu Cymraeg, ac awgrymodd siaradwyr Cymraeg eu bod yn ymddiried yn yr orsaf yn fwy na rhai eraill am ei bod yn llythrennol yn 'siarad ein hiaith ni'.

Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell newyddion boblogaidd ymhlith aelodau'r panel, ond y farn gyffredinol oedd mai cyflwyno safbwyntiau pobl eraill y maent yn ei wneud yn hytrach na bod yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth ffeithiol.

I BA RADDAU Y MAENT YN YMDDIRIED YNDDO?

Yn gyffredinol, roedd aelodau Panel y Dinasyddion yn eithaf hyderus yn eu llythrennedd yn y cyfryngau, ac roeddent yn cydnabod nad oeddent yn ymddiried ym mhopeth yr oeddent yn ei ddarllen neu'n ei weld yn y cyfryngau. Roeddent yn ymddiried mewn rhai darlledwyr yn fwy nag eraill, fel y BBC, ITV a Sky News, a dywedodd un cyfranogwr na fyddai'n 'mynd ar gyfyl [rhai sianeli newyddion]!'.

Dywedodd rhai cyfranogwyr fod 'pob un ohonom yn gwybod bod yr adain dde a'r papurau tabloid wedi dweud celwydd wrthym', a nododd eraill y broblem yn ymwneud â 'rhagfarn' gwleidyddol, gyda'r *Daily Mirror* yn cefnogi Llafur a *The Times* yn cefnogi'r Ceidwadwyr, gan ei gwneud hi'n anodd i ddarllenwyr bennu dibynadwyedd stori benodol.

Nodwyd bod ymddiriedaeth yn broblem benodol ar y cyfryngau cymdeithasol, a mynegwyd safbwyntiau negyddol am Facebook, Instagram a TikTok, yn ogystal â rhai sylwadau y gallai gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn 'wir, yn farn, neu'n gelwydd noeth'. Mynegodd aelodau'r panel hefyd rwystredigaeth nad yw bob amser yn hawdd neu'n syml cadarnhau ffeithiau ar safleoedd fel Facebook a Twitter. Dywedodd rhai aelodau o'r panel y byddent bob amser yn troi at safleoedd cyfryngau prif ffrwd 'dibynadwy' ar ôl gweld gwybodaeth yr oeddent yn ei hamau ar y cyfryngau cymdeithasol, ond roeddent yn teimlo bod 'synnwyr cyffredin' - safon gymedrol o lythrennedd yn y cyfryngau - yn broblem: 'Mae pobl yn gweld pennawd ac yn ei dderbyn fel gwirionedd, ac yna maent yn dweud wrth eu ffrindiau.'

SUT MAE HYN YN EFFEITHIO AR Y Ffordd Y MAENT YN MEDDWL AC YN TEIMLO AM WLEIDYDDIAETH YNG NGHYMRU?

Unwaith eto, rhannwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau am y cysylltiadau rhwng y cyfryngau a safbwyntiau pobl am wleidyddiaeth a'r broses ddemocrataidd.

Yn gyffredinol, roedd diffyg hyder ymhlith aelodau Panel y Dinasyddion yn eu gwybodaeth eu hunain am wleidyddiaeth, yn enwedig ar lefel Cymru. Ystyriwyd bod gwleidyddiaeth yn bwnc anodd, ac ni theimlwyd bod y cyfryngau yn arbennig o ddefnyddiol o ran rhoi gwybodaeth briodol ar lefel y gallai pobl gyffredin ei deall.

Nodwyd bod diffyg 'tystiolaeth' yn broblem mewn straeon newyddion gwleidyddol, yn yr un modd â 'gwybodaeth ddibwys' a oedd yn cuddio neu'n tynnu sylw oddi ar wybod allweddol angenrheidiol. Roedd yr aelodau hefyd yn ymwybodol o gysyniadau fel 'eco-siambrau' ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n atgyfnerthu rhagfarnau presennol pobl ac yn aml yn hollti barn, yn enwedig ynghylch materion deuaidd neu ddadleuol fel Brexit.

Mynegodd rhai pobl bryder am ddylanwad mawrion pwerus y cyfryngau fel Rupert Murdoch, tra bod profiadau byw eraill o ddelio â systemau a phrosesau democrataidd hefyd yn lliwio eu barn, fel anawsterau wrth lywio biwrocratiaeth awdurdodau lleol.

Cytunwyd yn eang fod diffyg cysylltiad rhwng y gwleidyddiaeth y rhoddir sylw iddi ar y newyddion a materion gwirioneddol sy'n effeithio ar fywydau pobl yn eu cymunedau lleol. Weithiau, teimlwyd bod hyn yn amlygu ei hun fel cyfrwng sy'n canolbwyntio ar gwleidyddion fel categori o enwogion yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio'n bennaf ar archwilio polisiau'n fanwl. Teimlai rhai cyfranogwyr fod gwleidyddion yn feistri ar ddefnyddio'r cyfryngau pan fydd hynny'n gweddu i'w hagenda, a'u bod 'ond yn ymgysylltu â'r cyhoedd pan fydd etholiad'.

Yn benodol, roedd llawer o'r drafodaeth ynghylch y cysylltiad rhwng y cyfryngau newyddion a lefelau gormodol o hyder mewn gwleidyddiaeth ar lefel y DU, a gan mwyaf, dim ond ar ôl cyfnod dysgu'r prosiect yr ystyriwyd materion lleol ac ar lefel Cymru fel rhan o'r prosiect. O fewn y drafodaeth hon, cytunwyd yn eang nad oes digon o sylw yn cael ei roi i'r penderfyniadau a wneir yn y Senedd, a bod 'prinder' newyddion ar lefel leol.

3

**SYLWEBAETH A
DADANSODDIAD**

RHEOLEIDDIO'R CYFRYNGAU

ARGYMHELLION

- 1 Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, ac yn argymhell y dylid ystyried cylch gwaith ehangach ar gyfer y corff hwn ymhellach, a fyddai'n cynnwys monitro'r holl ffynonellau cyfryngau yng Nghymru, gan gynnwys print
- 2 Argymhellwn ymhellach y dylai aelodaeth yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru fod yn gynrychioliadol ac yn amrywiol ac y dylai fod system ar gyfer ymgynghori â dinasyddion Cymru yn ehangach wrth lunio polisi rheoleiddio
- 3 Argymhellwn y dylai'r *Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru* ddatblygu fframwaith arferion gorau pwrpasol i Gymru y gellid mesur allbynnau newyddion yng Nghymru yn ei erbyn (a'u sgorio o ran eu dibynadwyedd mewn ffordd debyg i system sgoriau hylendid bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd) ac y gallai newyddiadurwyr (gan gynnwys hyfforddeion) ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi a meincnodi
- 4 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i wella atebolrwydd sefydliadau Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus i'r Senedd, drwy ddatganoli pwerau darlledu penodol, ac i greu sianelau y gellid eu defnyddio i archwilio atebion i'r materion trawswladol rheoleiddiol a'r rhai nad ydynt yn rheoleiddiol sy'n wynebu'r cyfryngau yng Nghymru, y DU a ledled y byd ymhellach



TROSOLWG

Roedd gan Banel y Dinasyddion ddiddordeb mewn dull o reoleiddio'r cyfryngau yn effeithiol (ar lefel Cymru ond hefyd ar lefel y DU ac yn rhyngwladol), fel ffordd o sicrhau y gall pobl gyffredin ymddiried yn yr hyn y maent yn ei ddarllen a'i wyllo. Wrth wraidd y drafodaeth roedd y farn gref bod angen mwy o bwerau ar Gymru, gan gynnwys y pŵer i reoleiddio ei chyfryngau ei hun, i sicrhau mai'r materion sy'n bwysig i ddinasyddion Cymru sy'n cael y prif sylw yn y cyfryngau, ac i atgyfnerthu darpariaeth Gymraeg y cyfryngau.

Yn gyffredinol, teimlwyd bod dull cyffredin ledled y DU yn annigonol, yn ymarferol ac o ran sefyllfa wleidyddol benodol Cymru a'i hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol. Teimlai'r dinasyddion yn gryf nad yw Cymru fel gwlad na'i hardaloedd lleol cyfansoddol yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan gyfrwng nad yw'n adlewyrchu bywyd yn eu cymunedau'n ddigonol.

Cydnabuwyd bod rhai o'r materion hyn yn haws eu datrys nag eraill. Yn wir, mae rhai o feysydd trafod Panel y Dinasyddion o fewn y pwerau sydd wedi'u datganoli i'r Senedd ar hyn o bryd, ac mae rhai y tu hwnt iddynt. Yn benodol, cydnabuwyd y ffaith bod yn rhaid ystyried rheoleiddio'r cyfryngau mewn perthynas â natur fyd-eang y farchnad ac mai dim ond hyn a hyn y gellir ei gyflawni ar lefel genedlaethol, gan olygu bod angen cydweithrediad rhyngwladol a goruchwyliaeth a rennir.

Ar sail y trafodaethau, argymhellodd Panel y Dinasyddion y dylid gwneud y canlynol:

- **'sefydlu corff rheoleiddio effeithiol a phwerus sy'n cwmpasu pob sefydliad cyfryngau sy'n weithredol yng Nghymru, gan gynnwys y wasg, darlledu ac ar-lein (er mwyn sicrhau bod rhyddid barn yn atebol, nid ei atal)'**

[roedd 82% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]

- **'rhoi cadarnhad annibynnol o gywirdeb y newyddion'**

[roedd 91% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]

Er mwyn llunio ein hargymhellion terfynol, aeth Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig ati i ystyried awgrymiadau'r Panel a'u dadansoddi yn erbyn y cyd-destun gwleidyddol presennol a thirwedd y cyfryngau yng Nghymru.

CYD-DESTUN A DADANSODDI

Mae tirwedd rheoleiddio'r cyfryngau yn un gymhleth, sy'n croesi ffiniau.

O ran y wasg, yn 2013 sefydlodd Senedd y DU Siarter Frenhinol ar Hunanreoleiddio'r Wasg, a arweiniodd at sefydlu Panel Cydnabod y Wasg (PRP), sy'n gyfrifol am gymeradwyo rheoleiddwyr y wasg. Mae'r rhan fwyaf o bapurau newydd y DU yn aelodau o Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg (IPSO), rheoleiddiwr y DU a ariennir gan y diwydiant ar gyfer y diwydiant papurau newydd a chylchgronau (gan gynnwys papurau newydd ar-lein) yn y DU, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u lleoli neu sy'n weithredol yng Nghymru. Nid yw IPSO byth wedi gwneud cais am gymeradwyaeth y PRP ac nid ystyrir ei fod yn bodloni'r meini prawf perthnasol. Mae rhai teitlau llai yn aelodau o Fonitor Annibynnol y Wasg (IMPRESS) (gan gynnwys, er enghraifft, *WalesOnline*). Mae IMPRESS wedi gwneud cais am gymeradwyaeth PRP, ac wedi ei chael. Mae rhai papurau newydd yn aelodau o IPSO ac IMPRESS. Mae eraill nad ydynt yn aelodau o unrhyw rheoleiddiwr.

Mater arall i'w ystyried yma yw awdurdodaeth reoleiddio a'r ffaith y gall materion Cymreig gael sylw mewn papurau newydd a werthir yng Nghymru ond nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru neu'n eiddo i gwmni o Gymru. Felly, o fewn y setliad datganoli sy'n bodoli a thirwedd bresennol y cyfryngau, mae'n anodd rheoleiddio'r cyfryngau yng Nghymru yn effeithiol, sef y rheswm dros ein hargymhelliad ar gyfer fframwaith arferion gorau anghyfrwymol a fyddai'n codi'r disgwyliadau ar gyfer yr holl gyfryngau yng Nghymru ar draws amrywiaeth o fetrigau.

Mae dadleuon gan y wasg yn erbyn rheoleiddio allanol fel arfer yn cyfeirio at bwysigrwydd newyddiaduraeth am ddim o safbwynt democratiaeth, sydd yn sicr yn bwysig. Ond caiff hyn ei danseilio os yw defnyddwyr yn teimlo na allant ymddiried yn y wybodaeth a gyflwynir, neu os yw cyfran fawr o'r darpar gynulleidfa yn teimlo bod diffyg ansawdd yn eu cyfryngau lleol a chenedlaethol. Mae rheoleiddio yn un ffordd o helpu i adfer ymddiriedaeth a hyder, yn ogystal ag ymrwymiad i safonau ansoddol i wella darpariaeth y cyfryngau i ddinasyddion.

Gan symud ymlaen i deledu a radio, nid yw darlledu yn swyddogaeth ddatganoledig i Gymru. Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) sy'n gyfrifol am reoleiddio darlledu, ac er bod Pwyllgor Cyngori Cymru Ofcom yn bodoli, sy'n rhoi cyngor ar safbwyntiau a buddiannau pobl Cymru, un o swyddogaethau llywodraeth y DU yw Ofcom yn gyffredinol. Galwodd '*Edrych ar ddatganoli darlledu*', adroddiad a gyhoeddwyd yn 2021 gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Pumed Senedd, am fwy o bwerau i Gymru dros ddarlledu, gan gynnwys pwerau dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg a mwy o gynnwys wedi'i gynhyrchu yng Nghymru. Nodwn mai â darlledu y mae'r *Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru* yn ymwneud yn bennaf, ond argymhellwn y dylid pennu cylch gwaith ehangach ar gyfer y corff eginol hwn gan y byddai'n gartref priodol i ymyriadau rheoleiddio wedi'u teilwra'n arbennig i Gymru ar draws yr holl gyfryngau, gan osgoi unrhyw ddryswch posibl neu angen am ddyblygu.

O ran y cyfryngau ar-lein, mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bwriad i reoleiddio darparwyr llwyfannau digidol, drwy Ofcom. Mae'r *Bil Diogelwch Ar-lein* (2022), a ddrafftwyd yn ystod haf 2022, yn nodi bwriad i greu dyletswydd gofal i lwyfannau ar-lein, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddiogelu unigolion rhag mathau penodol o niwed ar-lein. Mae'r Bil hwn yn ddeddfwriaeth lled ddadleuol; ymhlith y pryderon mae'r cynnig i atal barn gyfreithiol ond niweidiol, er bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a benodwyd yn ddiweddar wedi awgrymu y gallai'r cynnig hwn gael ei ddiwygio (BBC, 2022). Ond mae'r Bil yn ymgais i fynd i'r afael â phŵer cwmnïau aml-gyfrwng mawr a chydabod y ffaith nad yw deddfwriaeth gyfredol wedi datblygu ar yr un raddfa â datblygiadau yn y cyfryngau.

Nid yw dadleuon o'r fath yn unigryw i Gymru. Er enghraifft, mae'r Bartneriaeth Llywodraeth Agored, sefydliad sy'n ymwneud yn benodol â thrawsnewid y ffordd y mae llywodraethau'n gwasanaethu dinasyddion, wedi llunio rhestr o bwyntiau gweithredu ar gyfer llywodraethu digidol tryloyw ac atebol, gan gynnwys yr angen i sicrhau cynhwysiant digidol, mynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth, diogelu rhag goruchwyliaeth a sensoriaeth, ac atal aflonyddu ar-lein.

Yr hyn y mae trafodaethau o'r fath yn ei ddangos yn glir yw bod angen ystyried rheoleiddio'r cyfryngau ar sail drawswladol. Yn wir, mae nifer o densiynau'n bodoli, er enghraifft rhwng y newyddion a gynhyrchir yng Nghymru (a/neu gan ddinasyddion Cymru) a'r newyddion a gynhyrchir y tu allan i Gymru ond sy'n ymwneud â Chymru, y tensiwn rhwng ffocws ar faterion lleol a ffocws ar drafod materion DU gyfan a rhyngwladol, a'r tensiwn rhwng rhyddid barn a diogelu rhag niwed. Mae hefyd yn faes polisi sy'n newid yn gyflym, yn y DU ac yn rhyngwladol ac, felly, mae angen bod yn ofalus wrth ystyried yr hyn sy'n bosibl, a thros ba gyfnod o amser.

Ond er gwaethaf yr heriau gwahanol a wynebwr wrth fynd i'r afael â rheoleiddio'r cyfryngau, mae canlyniadau Panel y Dinasyddion yn dangos awydd clir i wneud mwy yn y maes hwn.

ADDYSG DINASYDDIAETH A DEMOCRATIAETH

EIN HARGYMHELLION

- 5 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i atgyfnerthu Addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth mewn ysgolion, gan gynnwys canllawiau cliriach ar addysgu dinasyddiaeth a democratiaeth (ar lefel leol, genedlaethol a byd eang), yn ogystal â gwleidyddiaeth a hanes modern Cymru, o fewn maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau (MDPh) y Cwricwlwm i Gymru
- 6 Argymhellwn ymhellach y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cymwysterau TGAU Hanes ac Astudiaethau Cymdeithasol newydd yn cynnwys agweddau sy'n berthnasol i Gymru arwyddocaol ar wleidyddiaeth a phrosesau democrataidd
- 7 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru greu llwybrau hyfforddiant athrawon priodol, gan gynnwys TAR a hyfforddiant mewn swydd er mwyn galluogi athrawon i arbenigo mewn Astudiaethau Cymdeithasol, gan gynnwys gwleidyddiaeth



TROSOLWG

Roedd addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth yn thema gref yn nhrefodaethau Panel y Dinasyddion, ac fe'i nodwyd yn gynnar iawn fel ateb posibl i'r casgliad cychwynnol nad yw'r cyfryngau newyddion yn gwneud digon i helpu'r cyhoedd i ddeall gwleidyddiaeth. O ddechrau'r cyfnod dysgu, dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod eu dealltwriaeth bersonol o wleidyddiaeth, strwythurau democrataidd a'u cynrychiolwyr etholedig eu hunain yn annigonol, ac nad oedd ganddynt wybodaeth ddibynadwy hygyrch i unioni hyn. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y cyfranogwyr nad oeddent wedi cael addysg ddigonol am ddinasyddiaeth, a rhwystredigaeth mai prin y caiff mentrau addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth eu hanelu at oedolion.

Cydnabuwyd rhai o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chyflwyno addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth o ansawdd da, gan gynnwys cyflymder newidiadau gwleidyddol, pwysau ar gwricwlwm yr ysgol, a'r anawsterau o ran cynnal didueddrwydd, a nodwyd hefyd fod jargon yn rhwystr mawr i swyddogaeth addysgol y cyfryngau.

Y farn gyffredinol wrth drafod oedd bod angen cynnig addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth i bob grŵp oedran, a nodwyd bod ysgolion yn llwybr haws i wneud hynny, a chafwyd trafodaeth fanylach am syniadau arloesol o ran sut y gellid cynnig addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth o ansawdd uchel i oedolion yng Nghymru (mae'r syniadau hyn wedi'u hamlinellu ymhellach yn ein hargymhellion mewn perthynas â 'Cydnabod Cymreictod' ym Mhennod 4.

Ar sail y trafodaethau, argymhellodd Panel y Dinasyddion y dylid gwneud y canlynol:

- **'Ategu'r maes llafur presennol ar gyfer sgiliau bywyd/Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI) drwy gynnwys ffocws ychwanegol ar arferion presennol a hanes gwleidyddiaeth yng nghwricwlwm ysgolion, ar ffurf dosbarth Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) orfodol gyfunol'**

[roedd 73% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]

- **'Cyflwyno gwleidyddiaeth i'r gymuned ehangach drwy hyrwyddo ac annog gwasanaeth addysgol a ariennir gan y llywodraeth y gellir ei gyflawni gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau hygyrch'**

[roedd 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]

Er mwyn llunio ein hargymhellion terfynol, aeth Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig ati i ystyried awgrymiadau'r Panel a'u dadansoddi yn erbyn y cyd-destun gwleidyddol presennol a thirwedd y cyfryngau yng Nghymru.

CYD-DESTUN A DADANSODDI

Mae trafodaethau Panel y Dinasyddion mewn perthynas â hyn yn atgyfnerthu o safbwynt oedolyn safbwyntiau 200 o bobl ifanc a gymerodd rhan yn 'Our Voices Heard', prosiect a gynhaliwyd gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn 2018, a oedd y galw am amrywiaeth debyg o ymyriadau i helpu dinasyddion i ddeall y broses ddemocrataidd, pleidiau gwleidyddol, sefydliadau ac ymgyrchu. Roedd y ddau grŵp 'yn awyddus i ddysgu am wleidyddiaeth [ac] yn awyddus i weld mwy o'u gwleidyddion.'

Fel yr amlinellwyd gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r ymrwymiad i greu adnoddau addysg wleidyddol i'w defnyddio mewn ysgolion yng Nghymru, ond nid yw wedi mandadu addysg wleidyddol 'fel pwnc penodol neu orfodol'.

Mae'n bwysig nodi yma bod pynciau gwaddol ABCh ac ABGI wedi'u hymgorffori ym maes dysgu a phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru, a bod rhai agweddau ar addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth eisoes wedi'u cynnwys yn natganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn MDPH y Dyniaethau.

O dan y datganiad 'Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl', mae Llywodraethiant a ddiffinnir fel 'y systemau a'r ffyrdd y mae gwledydd, cymunedau a sefydliadau yn cael eu harwain a'u rheoli' - wedi'i restru fel cysyniad allweddol y bydd dysgwyr yn ei archwilio, ochr yn ochr â chronoleg, newid a pharhad, amrywiaeth, achos ac effaith, cydgyssylltiad, cymuned, hunaniaeth a pherthyn, ac awdurdod.

O dan y datganiad 'Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol', ceir canllawiau statudol pellach y bydd dysgwyr yn 'archwilio cysyniadau gan gynnwys dinasyddiaeth, awdurdod a llywodraethiant, rhyng-gysylltu, cyfiawnder a chydraddoldeb, menter, hawliau, a gweithredu a chyfrifoldeb cymdeithasol', gan eu galluogi i 'ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion cyfranogol, gofalgar o'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang, gan ddangos ymrwymiad i gyfiawnder, amrywiaeth a diogelu'r amgylchedd, ynghyd â dealltwriaeth ohonyn nhw'.

Er gwaethaf y canllawiau cysyniadol lefel uchel hyn, mae'r pwyslais y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei roi ar ymreolaeth ysgolion unigol yn peri risg uchel o amrywio o ran penodoldeb yr addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth y bydd dysgwyr yn ei chael mewn gwirionedd.

Felly, argymhellwn y dylai addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth benodol ganolbwyntio ar y broses ddemocrataidd ar lefel leol, lefel Cymru ac ar lefel y DU, yn unol â'r hyn a bennir yn y canllawiau, gyda chysylltiadau clir â phe cyn o ansawdd uchel o adnoddau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant athrawon.

Er bod y Cwricwlwm i Gymru wrthi'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd, mae'r cymwysterau a fydd yn cymryd lle TGAU yn dal i gael eu datblygu, ac mae'n werth nodi bod 'Diwygio cymwysterau' yn rhan allweddol o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Yn 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' (Hydref 2021), nododd Cymwysterau Cymru ei benderfyniad i greu cymhwyster TGAU Hanes newydd. Ym mharagraff 5.66 nodir 'yr angen i hanes Cymru fod yn rhan allweddol o'r cymhwyster TGAU Hanes newydd'. Mae cyfle clir yma i unrhyw elfen newydd ar hanes modern Cymru gynnwys astudio datganoli, creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i datblygu wedyn i greu'r Senedd ac, yn hollbwysig, y cydberthnasau rhwng seneddau ac awdurdodaethau gwahanol y Deyrnas Unedig.

Yn yr un ddogfen mae Cymwysterau Cymru yn nodi ei benderfyniad i greu cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd, a 'bod y cymhwyster amlddisgyblaethol hwn yn cyd-fynd â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd'. Mae 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' yn nodi y 'bydd gweithgorau'n cael eu cynnull ar lefel pwnc unigol i ddatblygu cynigion ar gyfer sut y gallai cynnwys ac asesiad pob cymhwyster yn y dyfodol gefnogi dylunio cwricwlwm ac ymarfer addysgu effeithiol' (5.78) ac y byddai'n sicrhau dilyniant i astudiaeth bellach, 'ac yn arbennig i bynciau cysylltiedig fel y gyfraith, cymdeithaseg a gwleidyddiaeth' (5.80).

Er mai cymhwyster TGAU dewisol fyddai hwn, gallai a dylai ei fabwysiadu'n eang mewn ysgolion yng Nghymru arwain at gyrsiau TAR arbenigol ar gyfer athrawon Astudiaethau Cymdeithasol, a allai wedyn gyflwyno gwersi addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth arbenigol i bob myfyriwr ar lefel uwchradd. Gellid mandadu pob ysgol yng Nghymru i benodi arweinydd addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth, gyda chyfrifoldeb addysgu a dysgu cysylltiedig. Byddai'r rôl hon yn gyfrifol am fod yn bwynt cyswllt i gynrychiolwyr etholedig o bob plaid a phob lefel briodol o lywodraeth ymweld â'r ysgol yn unol ag argymhellion Panel y Dinasyddion a'r pwyslais yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyd-destunau dysgu dilys.

CYDNABOD CYMREICTOD

EIN HARGYMHELLION

- 8 Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad yng Nghytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i 'gyllido mentrau presennol a newydd i wella newyddiaduraeth yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â diffyg gwybodaeth' ac yn argymhell y dylid dyrannu rhagor o gyllid i gefnogi newydd-ddyfodiaid o amrywiaeth eang o gefndiroedd mewn ardaloedd ledled Cymru i fanteisio ar hyfforddiant newyddiaduraeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r sylw a roddir i faterion Cymreig yn y cyfryngau, darpariaeth Gymraeg a mynd i'r afael â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- 9 Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru greu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddarparu amrywiaeth o adnoddau addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ysgol ac oedolion; dylai'r rhain gael eu llunio ar y cyd â dinasyddion, eu dosbarthu drwy amrywiaeth eang o leoliadau cymunedol a sianeli cyfathrebu, a'u hategu gan ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd wedi'i hariannu'n dda, wedi'i hanelu at amrywiaeth o grwpiau gwahanol.



TROSOLWG

Roedd Panel y Dinasyddion yn cytuno mai un o brif wendidau tirwedd y cyfryngau yng Nghymru yw nad yw'n gwasanaethu unigolion a chymunedau yng Nghymru yn ddigonol. Un o themâu cryf y trafodaethau oedd natur Llundain-ganolog cyfryngau newyddion y DU. Nododd llawer o'r cyfranogwyr nad oeddent yn ymwybodol o ddiffyg dimensiwn Cymreig y newyddion roeddent yn ei ddarllen a'i weld, a bod cymryd rhan yn y prosiect hwn wedi eu galluogi i weld y newyddion o safbwynt gwahanol.

Yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o'r diffyg democrataidd sy'n deillio o'r diffyg sylw a roddir i wleidyddiaeth Cymru gan ffynonellau newyddion y DU, nododd cyfranogwyr ddiffyg gwybodaeth hanfodol yn ymwneud â hanes a diwylliant Cymru, gan gynnwys y Gymraeg.

Roedd cyfranogwyr yn synnu nad yw newyddion am Gymru yn cael ei gynhyrchu'n bennaf yng Nghymru gan newyddiadurwyr o Gymru, a daethant i'r farn yn gyflym na ddylai Cymru gael eu hesgeuluso gan ffynonellau newyddion y DU. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, teimlai'r Panel ei bod yn bwysig bod dinasyddion Cymru yn gallu cael gafael yn hawdd ar straeon am eu hardaloedd lleol eu hunain yn ogystal ag am benderfyniadau a wnaed sy'n effeithio ar eu bywydau, a'u bod yn gallu meithrin dealltwriaeth well o'r meysydd lle y caiff y penderfyniadau hyn eu gwneud, a chan bwy. Roeddent yn teimlo mai un ffordd o ateb hyn fyddai neilltuo cyllid penodol i hyfforddi newyddiadurwyr a fyddai'n gweithio mewn cymunedau lleol, yn cysylltu â dinasyddion lleol eraill ac yn wybodus am hanes, diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru.

Ar sail y trafodaethau, argymhellodd Panel y Dinasyddion y dylid gwneud y canlynol:

- **'Mae'n rhaid i newyddion am Gymru gael ei gynhyrchu yng Nghymru gan newyddiadurwyr sy'n byw yng Nghymru ac yn adnabod y wlad'**
[roedd 59% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]
- **'Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu ffynhonnell/ffynonellau cyllid cyhoeddus er mwyn helpu i ddatblygu grwpiau lleol i ddarparu newyddion lleol hygyrch ar-lein'** *[roedd 67% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]*
- **'Creu gwasanaeth gwybodaeth hygyrch wedi'i anelu at oedolion, gan gynnwys adnoddau ar-lein, print a sain am hanes, diwylliant a system wleidyddol Cymru, drwy adran addysg Llywodraeth Cymru a phrifysgolion'**
[roedd 91% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]
- **'Cyflwyno gwleidyddiaeth i'r gymuned ehangach drwy hyrwyddo ac annog gwasanaeth addysgol a ariennir gan y llywodraeth y gellir ei gyflawni gan ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau hygyrch'**
[roedd 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf]

Er mwyn llunio ein hargymhellion terfynol, aeth Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig ati i ystyried awgrymiadau'r Panel a'u dadansoddi yn erbyn y cyd-destun gwleidyddol presennol a thirwedd y cyfryngau yng Nghymru.

CYD-DESTUN A DADANSODDI

Mae argymhellion Panel y Dinasyddion yn deillio'n amlwg o bryder nad yw ardaloedd lleol yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan gyfryngau newyddion. Mae hyn yn dilyn dirywiad amlwg ac wedi'i ddogfennu'n helaeth papurau newydd lleol, gyda rhai ardaloedd o Gymru yn cael eu disgrifio'n 'anialwch newyddion' (gweler gwaith Howells yn 2015 ar Bort Talbot). Mae'n amlwg bod angen i'r rhain gael eu nodi ac i fylchau mewn newyddion gael eu llenwi ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, ac mae'n bwysig nodi nad yw 'anialwch newyddion' bob amser yn cyfeirio at ardal ddaearyddol ac y gall ymwneud â chymuned benodol sydd fel arall yn ymddangos fel pe bai'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol (er enghraifft cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; cymunedau difreintiedig yn gymdeithasol-economaidd, ac ati)

Nod un o ymgyrchoedd cyllido diweddar Llywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol i gefnogi BBC Cymru Wales, ITV Cymru Wales, S4C a Channel 4 yw cynnig mwy o gyfleoedd i gymunedau amrywiol ym maes ffilm a theledu yng Nghymru, ond y brif her yw diffyg adnoddau yn nhirwedd bresennol y cyfryngau yng Nghymru i gefnogi newyddiadurwyr lefel mynediad o gefndiroedd amrywiol. Cyhoeddwyd cymorth gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Cynulleidfaedd Newydd (2022) Cyngor Llyfrau Cymru yn ddiweddar hefyd, gan neilltuo ychydig yn llai na £200,000 i ddatblygu cyfleoedd a chynulleidfaedd newydd yn y sector cyhoeddi yng Nghymru, gan gynnwys prosiectau cymunedol i gasglu straeon a mentora ysgrifenyddwyr heb gynrychiolaeth ddigonol. Ond mae'n amlwg bod angen rhagor o fuddsoddiad sylweddol ac wedi'i dargedu i gefnogi llwybrau newydd i mewn i'r diwydiant.

Mae cyngor cyfredol Gyrfa Cymru ar lwybrau i newyddiaduraeth yn cydnabod bod cyfleoedd uniongyrchol i ymuno â'r diwydiant drwy gontractau hyfforddiant yn dod yn fwyfwy prin, mai graddedigion yw'r rhan fwyaf o newydd-ddyfodiaid a bod cystadleuaeth ffyrnig am swyddi. Efallai mai'r ffordd orau o grynhoi'r sefyllfa yw drwy nodi'r ffaith bod llai na 1,000 o bobl wedi'u cyflogi fel newyddiadurwyr yng Nghymru, a bod y galw a ddisgwylir yn y dyfodol am swyddi newyddiadurwyr a swyddi cysylltiedig yn isel o gymharu â swyddi eraill yng Nghymru (EMSI, 2022).

Thema gyson a welwyd yn nhrefodaethau Panel y Dinasyddion oedd y gwahaniaethau rhanbarthol yng Nghymru, yn benodol rhaniad canfyddedig rhwng y gogledd a'r de a thuedd i Gaerdydd a'r de-ddwyrain ddominyddu canfyddiadau o Gymreictod, ac i'r cyfryngau fod yn rhan o'r un 'swigen' â gwleidyddion. Roedd diddordeb brwd mewn lleoliaeth a datganoli.

Roedd Panel y Dinasyddion o blaid cyfryngau Cymraeg ond nodwyd hefyd nad yw siaradwyr uniaith Saesneg yng Nghymru yn benodol yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol o ran y ffaith nad oes ganddynt fynediad digonol i gynnwys wedi'i gynhyrchu yn Gymraeg, a theimlwyd y dylid gwneud mwy i hwyluso deialog rhwng ffynonellau cyfryngau Cymraeg a Saesneg.

Trafodwyd hefyd i ba raddau y gellir dadlau mai diben y cyfryngau yw hysbysu dinasyddion am hanes a diwylliant, ond teimlwyd y dylid rhoi sylw dyledus i gyd-destun hanesyddol a diwylliannol perthnasol, gan gynnwys safbwynt Cymreig, wrth adrodd ar faterion cyfoes.

Gan ddilyn ymlaen o'r argymhellion ynghylch addysg Dinasyddiaeth a Democratiaeth, roedd nodi mentrau addysg i oedolion fel sbardun posibl allweddol i gynyddu llythrennedd digidol a gwleidyddol o fewn y boblogaeth gyffredinol yn thema gyson yn nhrefodaethau Panel y Dinasyddion.

Cydnabuwyd, o ystyried y ffaith bod llai o ymddiriedaeth mewn gwleidyddion nag erioed, bod rhwystrau sylweddol yn bodoli i gynnwys y cyhoedd mewn mentrau o'r fath ac, felly, y byddai angen eu cynnal mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol er mwyn cyrraedd amrywiaeth eang o bobl. Roedd dealltwriaeth gyffredinol y byddai angen cymysgedd o adnoddau, gan gynnwys rhai digidol - 'gweledol, sain a rhyngweithiol' - a chyfleoedd wyneb yn wyneb ac y byddai angen cryn fuddsoddiad a gwaith cynllunio gofalus er mwyn osgoi dyblygu.

Rydym yn awgrymu y gallai Grŵp Gorchwyl a Gorffen - i gynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol o bob lefel o lywodraeth yng Nghymru, gweithwyr proffesiynol yn niwydiant y cyfryngau, addysgwyr a phanel o ddinasyddion - archwilio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn y maes, nodi arferion gorau, curadu adnoddau presennol a chreu rhai newydd er mwyn llenwi bylchau a nodwyd. Dylai'r grŵp hefyd fod yn gyfrifol am greu amrywiaeth eang o ddulliau o ledaenu a dylunio ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd broffil uchel er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd y nifer mwyaf o bobl. Mae Grŵp Democratiaeth Cymru, a gadeirir gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, yn rhwydwaith bresennol o randdeiliaid sy'n gweithio dros newid cadarnhaol yn y maes hwn, a gallai fod yn gorff priodol i wneud y gwaith hwn

CASGLIAD: LLEISIAU O OBAITH

Un o'r agweddau mwyaf calonogol ar y gwaith hwn fu'r ymateb cadarnhaol i'r broses gan bob un o'r 15 o ddinasyddion a roddodd hyd at 19 o'u hamser i ymrwymo i ddysgu am y pwnc a'i drafod. Nid oedd gan y rhan fwyaf ohonynt fawr ddim gwybodaeth flaenorol yn ei gylch ond roeddent o'r farn ei fod yn bwnc pwysig iawn er budd y gymdeithas. Ymrwymodd 12 o'r 15 o gyfranogwyr i gadw mewn cysylltiad â'r Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig er mwyn bod yn rhan o'r gwaith o ledaenu'r ymchwil, a chytunodd pob un ei fod wedi mwynhau'r broses ac wedi cael budd ohoni. Yn fwy gobeithiol byth, roedd pob un ohonynt yn teimlo bod eu lleisiau wedi cael eu clywed mewn ffordd sy'n brin yn y gymdeithas sydd ohoni, lle mae lleisiau dinasyddion yn cael eu hanwybyddu'n rhy aml.

Felly, er gwaethaf yr heriau mawr, sydd wedi'u dogfennu'n helaeth, a wynebier gan ein cyfryngau yng Nghymru, rydym yn cynnig yr argymhellion hyn yn yr un ysbryd gobeithiol ag y cawsant eu datblygu. Mae casgliadau Panel y Dinasyddion yn atseinio llawer o'r pwyntiau a wnaed dro ar ôl tro gan arbenigwyr sy'n gweithio yn y cyfryngau ac ym maes democratiaeth yng Nghymru dros y degawd diwethaf a mwy. Ein gobaiith nawr yw caiff camau eu rhoi ar waith yn gyflym; oherwydd mewn cynifer o feysydd, mae statws Cymru fel gwlad fach yn golygu bod ymyriadau syml yn gallu arwain at ganlyniadau cynhyrchiol. Credwn y bydd rhoi'r argymhellion hyn ar waith yn ein helpu i gymryd sawl cam pellach tuag at greu amgylchedd y cyfryngau y mae ein dinasyddion yn awyddus i'w weld ac y maent yn ei haeddu.

Mae lleisiau ein Dinasyddion yn lleisiau o obaith, ond maent yn dweud wrthym fod angen i ni fynd ati ar frys i sicrhau bod y cyfryngau'n gweithio dros bobl Cymru. Mae ein democratiaeth yn dibynnu arno.

4+

ATODIAD

Ffurfiwyd Panel y Dinasyddion i adlewyrchu (cyn belled ag y bo'n bosibl gyda'r adnoddau a oedd ar gael) Rheithgor Dinasyddion, gan ddefnyddio'r safonau sy'n datblygu a grëwyd gan rwydwaith o ymarferwyr yn ystod 2020-2021. Defnyddiodd y bartneriaeth, a oedd yn awyddus i fabwysiadu dull 'profi a dysgu', ei hadnoddau i fabwysiadu egwyddorion a phroses Rheithgor Dinasyddion ar raddfa ychydig yn llai: mae'r Panel o 15 o aelodau yn adlewyrchu maint Rheithgor Dinasyddion nodweddiadol, ond yn hytrach na chwrdd am 30-45 awr, cyfarfu aelodau'r Panel am 19 awr, a chawsant £190 fel rhodd ewyllys da am eu hamser.

Gofynnwyd i'r Panel ystyried un cwestiwn penodol – 'I ba raddau y mae'r newyddion yn eich helpu i ddeall gwleidyddiaeth?' – a ddatblygwyd dros ddau gyfarfod wedi'u hwyluso'n annibynnol â grŵp o weithwyr proffesiynol o'r Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Sefydliad Materion Cymreig. Gofynnwyd i'r Panel ddatblygu argymhellon mewn ymateb i'r cwestiwn hwnnw.

RECRIWTIO'R PANEL

Mae Rheithgorau Dinasyddion a Chynulliadau yn defnyddio proses ddethol ar hap i recriwtio aelodau. Defnyddiodd y Panel hwn Sefydliad Sortition i ddethol y 15 o gyfranogwyr gan ddefnyddio'r targedau canlynol o ran demograffeg genedlaethol:

- Rhywedd
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Addysg (lefel y cymhwyster uchaf)
- Daearyddiaeth (cyfeiriad cartref yng Nghymru)
- Trefol/gwledig
- Siaradwr Cymraeg
- Pleidleisiwr yn y Senedd

Ein nod oedd 'gor-recriwtio' ychydig yn y categorïau demograffig sy'n cael eu tangynrychioli fel arfer mewn prosesau ymgynghori democrataidd, am fod ymchwil yn dangos bod y grwpiau hyn hefyd yn llai tebygol o lawer o wirfoddoli ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

Felly, gwnaethom, er enghraifft, anelu at gael ychydig yn fwy o gynrychiolwyr o gategorïau iau, pobl nad ydynt yn pleidleisio a phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol.

Fodd bynnag, o ystyried cyfradd newid o 100% drwy gydol y broses, bu'n anodd cyrraedd y targedau hyn neu ragori arnynt.

Mae'r siartiau cylch isod yn dangos ein targedau gwreiddiol ym mhob categori demograffig; lefel yr ymateb ym mhob categori; y grŵp a ddetholwyd (gan sicrhau ein bod yn cadw'n agos at y targed gwreiddiol); a'r grŵp terfynol a gymerodd ran.

Gyda'i gilydd, maent yn dangos yr anawsterau sy'n rhan annatod o'r broses, yn ogystal â graddau'r llwyddiant a gafwyd ym mhob categori.

Gwnaed un neu fwy o alwadau ffôn i'r cyfranogwyr ac anfonwyd negeseuon e-bost atynt er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn yn hawdd. Cefnogwyd unrhyw anghenion ychwanegol neu ofynion digidol drwy gynnig sesiynau ymarfer personol a thechnoleg.

Ffigur 1: Dadansoddiad o'n targedau o ran demograffeg



	Targed	Atebwyr	Detholwyd (Gwreiddiol)	Detholwyd (Terfynol)
Addysg	<ul style="list-style-type: none"> Dim cymwysterau 25.9% Cymwysterau is na lefel 4 49.6% Cymwysterau lefel 4 ac uwch 24.5% 	<ul style="list-style-type: none"> Dim cymwysterau 5.0% Cymwysterau is na lefel 4 30.0% Cymwysterau lefel 4 ac uwch 65.0% 	<ul style="list-style-type: none"> Dim cymwysterau 20.0% Cymwysterau is na lefel 4 46.7% Cymwysterau lefel 4 ac uwch 33.3% 	<ul style="list-style-type: none"> Dim cymwysterau 12.5% Cymwysterau is na lefel 4 37.5% Cymwysterau lefel 4 ac uwch 50.0%
Daearyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Gogledd 20.0% Canolbarth a Gorllewin 18.7% De Ddwyrain 17.3% De Orllewin 23.3% Canol De 20.7% 	<ul style="list-style-type: none"> Gogledd 16.7% Canolbarth a Gorllewin 21.7% De Ddwyrain 23.3% De Orllewin 15.0% Canol De 23.3% 	<ul style="list-style-type: none"> Gogledd 20.0% Canolbarth a Gorllewin 20.0% De Ddwyrain 13.3% De Orllewin 20.0% Canol De 26.7% 	<ul style="list-style-type: none"> Gogledd 18.8% Canolbarth a Gorllewin 25.0% De Ddwyrain 18.8% De Orllewin 6.3% Canol De 31.3%
Trefol Gwledig	<ul style="list-style-type: none"> Trefol 67.3% Gwledig 32.7% 	<ul style="list-style-type: none"> Trefol 71.7% Gwledig 28.3% 	<ul style="list-style-type: none"> Trefol 73.3% Gwledig 26.7% 	<ul style="list-style-type: none"> Trefol 62.5% Gwledig 37.5%
Siaradwr Cymraeg	<ul style="list-style-type: none"> Ie 29.5% Na 70.5% 	<ul style="list-style-type: none"> Ie 10.0% Na 90.0% 	<ul style="list-style-type: none"> Ie 26.7% Na 73.3% 	<ul style="list-style-type: none"> Ie 12.5% Na 87.5%
Pleidleisio mewn etholiadau'r Senedd	<ul style="list-style-type: none"> Ie 42.0% Na 58.0% 	<ul style="list-style-type: none"> Ie 71.7% Na 28.3% 	<ul style="list-style-type: none"> Ie 46.7% Na 53.3% 	<ul style="list-style-type: none"> Ie 50.0% Na 50.0%

SIARADWYR

Dros gyfnod o dair wythnos, clywodd y Panel gan siaradwyr ag arbenigedd gwahanol ym maes y cyfryngau a llywodraeth yng Nghymru:

Jess Blair

Cyfarwyddwr, Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol

Ali Goldsworthy

Llywydd, Accord, ac awdur

Delyth Jewell AS

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd

Shirish Kulkarni

Newyddiadurwr, hyfforddwr ac ymchwilydd llwyddiannus

Huw Marshall

Sylfaenydd *The National Wales*, Sylfaenydd Annwen, Newyddiadurwr

Dr Ifan Morgan Jones

Darlithydd mewn Newyddiaduraeth, Prifysgol Bangor, Sylfaenydd Nation.Cymru

Cwblhaodd pob siaradwr dempled a chyfweliad 10 munud byr, a rannwyd â'r cyfranogwyr. Mynychodd pump o'r saith siaradwr y sesiynau dysgu hefyd er mwyn ateb cwestiynau yn fyw, a mynychodd un siaradwr bob un o'r sesiynau.

Y BROSES CYFRANOGI

Cafodd y 19 awr o sesiynau ar-lein eu strwythuro yn y ffordd ganlynol:

Sesiwn Wybodaeth;

diben y sesiwn oedd egluro'r hyn y gallai'r cyfranogwyr ei ddisgwyl yn ystod y sesiynau a diben y broses (*cael argymhellion gan bobl 'gyffredin' er mwyn hysbysu diwydiant y cyfryngau, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru am y newidiadau sydd eu hangen ym marn y cyhoedd i'w helpu i ddeall gwleidyddiaeth Cymru.*) Roedd y sesiwn hon yn gyfle i bobl brofi technoleg a gofyn cwestiynau am y broses.

Cyfnod Dysgu;

dwy sesiwn tair awr ar ddydd Sadwrn. Clywodd y cyfranogwyr gan arbenigwyr ym meysydd gwleidyddiaeth, newyddion ffug, cyfryngau amgen, cyllid a rheoleiddio er mwyn gwella eu dealltwriaeth o ran i ba raddau y mae'r newyddion yn helpu pobl i ddeall gwleidyddiaeth

Cyfnod Trafod;

dwy sesiwn tair awr ar ddydd Sul. Daethpwyd â'r hyn yr oedd y cyfranogwyr wedi ei glywed gan yr arbenigwyr a'u profiadau eu hunain ynghyd er mwyn iddynt allu nodi meysydd posibl lle y gellid cyfaddawdu, a datblygu eu safbwyntiau a'u syniadau eu hunain i lywio eu hargymhellion.

Cyfnod Argymhellion;

sesiwn chwe awr (o brynhawn i nos Fawrth) lle cynhaliwyd trafodaethau thematig yn seiliedig ar yr hyn a drafodwyd yn y sesiynau blaenorol. Aethpwyd ati i ddrafftio, adolygu, ailddrafftio ac ailysgrifennu argymhellion cyn i'r grŵp bleidleisio arnynt. Er mwyn i argymhelliad gael ei 'gymeradwyo', roedd angen iddo sicrhau 80% o bleidleisiau'r grŵp. Cafodd yr argymhellion hyn wedyn eu cyflwyno i gynrychiolwyr o'r Brifysgol Agored, y Sefydliad Materion Cymreig, newyddiadurwyr lleol, ac Aelod o'r Senedd.

ARGYMHELLION

Cafodd Panel y Dinasyddion ei dywys drwy'r broses ganlynol er mwyn llunio argymhellion cryf:

- Mae aelodau'r Panel yn cytuno ar feini prawf ar gyfer asesu'r argymhellion
- Maent yn cyd-lunio nifer o argymhellion drafft mewn grwpiau llai (gyda dau neu dri chyfranogwr arall)
- Mae pob grŵp yn mynd ati wedyn i gyflwyno ei argymhellion i'r cyfranogwyr eraill, sy'n asesu ac yn adolygu drafft cyntaf y grŵp arall.
- Caiff yr argymhellion wedyn eu diwygio i ystyried safbwyntiau'r cyfranogwyr eraill, er mwyn atgyfnerthu'r argymhellion yn gyffredinol
- Mae pob grŵp yn rhannu ei argymhellion terfynol â'r panel ehangach, ac mae pob cyfranogwr yn pleidleisio dros bob argymhelliad ar raddfa o 1 i 5 (1 = yn gryf yn erbyn, 5 + yn gryf o blaid)
- Rhaid i'r argymhellion gael canran cyfunol o 80% o'r pleidleisiau i ddangos bod y cyfranogwyr naill ai'n 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' er mwyn symud ymlaen
- Caiff pob argymhelliad â chefnogaeth mwy na 70% o'r cyfranogwyr wedyn eu cyflwyno i'r rhanddeiliaid perthnasol (yr Aelod o'r Senedd, Y Brifysgol Agored, y Sefydliad Materion Cymreig).

Gellir gweld argymhellion llawn y panel, gan gynnwys y nodiadau a'r trafodaethau, ar [wefan](#) y prosiect.

HERIAU

Roedd dwy her graidd yn y broses hon:

Recriwtio

Oherwydd cyfradd ymateb gymharol isel, roedd y gronfa o gyfranogwyr y gellid dethol ohoni yn llai na'r arfer, gan ei gwneud hi'n fwy anodd cyrraedd y targed o ran demograffeg. Mae hon yn her sylweddol yn y broses am ddau reswm allweddol:

- Bu'n rhaid dethol aelodau newydd i gymryd lle pob un o aelodau'r panel: detholwyd 15 unigolyn newydd ar gyfer panel o 15 o aelodau. Nid oedd unrhyw reswm amlwg dros hyn – roedd gan bobl resymau gwahanol yn ymwneud â materion personol a gwaith, ond pan fo gennych gronfa'n gymharol fach i ddechrau, mae risg na fyddwch yn llwyddo i gyrraedd y targedau
- Oedran a lefel addysg yw'r targedau anoddaf eu cyrraedd o ran demograffeg fel arfer, o ganlyniad i niferoedd cymharol isel yn cofrestru o'r grŵp oedran ieuengaf a'r grŵp â'r lefelau isaf o gymwysterau ffurfiol. Oherwydd cyfradd ymateb isel a chyfradd newid uchel, roedd yn fwy heriol byth cyrraedd y targedau hyn yn gywir.

Mae cynnull grŵp sy'n adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol ehangach yn cyflwyno heriau o ran cymorth. Mae angen deialog a chymorth ychwanegol ar gyfranogwyr sydd â chyflyrau sy'n effeithio ar eu gallu i gymryd rhan, fel gorbryder difrifol, neu'r rheini nad ydynt erioed wedi bod yn rhan o'r math hwn o broses gwneud penderfyniadau ddemocrataidd, cyn ac yn ystod pob sesiwn er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan. Cafodd pob un o'r cyfranogwyr eu cefnogi'n llawn, a chafodd llwyddiant hyn ei adlewyrchu yng nghyfradd gadw'r grŵp: roedd 15 cyfranogwr yn rhan o'r broses o'r dechrau i'r diwedd. Dim ond yn y sesiwn olaf yr oedd un person yn absennol, a hynny am resymau yn ymwneud â gwaith.

Amseru

Caiff Cynullïadau Dinasyddion llawn fel arfer eu cynnal dros gyfnod o sawl wythnos neu fis (rhwng 20 a 45 awr). Gallai cywasgu'r 19 awr dros gyfnod o bythefnos fod wedi effeithio ar y broses recriwtio gychwynnol (am fod llai o gyfranogwyr ar gael o bosibl). Gall hyn hefyd effeithio ar faint o amser sydd ar gael i glywed gan gyfres ehangach o siaradwyr. Mae'n arfer dda annog cyfranogwyr i awgrymu siaradwyr neu safbwyntiau amgen. Mae hyn yn bosibl os oes amser i wahodd eraill rhwng sesiynau, ond nid yw'n bosibl gyda phroses fyrrach. Yn yr achos hwn, ni ellid ystyried awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer siaradwyr o'r cyfryngau yn y DU. Byddai hyn wedi bod yn bosibl pe bai mwy o amser rhwng sesiynau.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU O RAN CRYFDER YR ARGYMHELLION?

Drwy ofyn i aelodau'r grŵp lunio argymhellion a fyddai'n dderbyniol i o leiaf 80% o'r grŵp, roedd yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gwranddo ac yn ymateb i sylwadau ar eu drafftiau cyntaf. Roedd pawb wedyn yn gallu mynegi eu cefnogaeth drwy bleidlais ddienw.


Roedd Panel y Dinasyddion yn galluogi cyfres amrywiol o unigolion yng Nghymru i ddod ynghyd, yr oedd pob un ohonynt yn cael gafael ar newyddion drwy gyfryngau gwahanol ac yr oedd gan bob un ohonynt ddealltwriaeth wahanol o wleidyddiaeth yn ogystal â gwerthoedd a safbwyntiau gwleidyddol gwahanol, yn seiliedig ar eu profiadau o fyw mewn rhannau gwahanol o Cymru. Er y gellid dadlau bod elfen o hunanddethol yn digwydd yn ystod cam ymateb cychwynnol y broses recriwtio, mae'r rhesymeg dros yr hunanddethol hwnnw yn seiliedig yn bennaf ar daliad yn hytrach na'r pwnc neu'r potensial i ddylanwadu, a allai fel arall annog mwy o ddinasyddion gweithredol i gymryd rhan drwy dechnegau mwy traddodiadol.

Yn yr achos hwn, nododd llawer o'r cyfranogwyr eu bod yn teimlo 'cywilydd' nad oeddent yn gwybod dim am brosesau gwneud penderfyniadau gwleidyddol yng Nghymru, nac yn cymryd diddordeb yn y newyddion am wleidyddiaeth yn rheolaidd. I'r gwrthwyneb, roedd rhai yn teimlo'n angerddol iawn am y ffordd y maent yn cael eu newyddion am wleidyddion. Mae trafodaeth a dadl sy'n galluogi'r profiadau hynny i gael eu deall yn well yn arwain at argymhellion ystyrlon sy'n debygol o fod yn dderbyniol i boblogaeth gyffredinol amrywiol Cymru.


ADBORTH GAN Y CYFRANOGWYR

Roedd yr holl adborth a gafwyd gan y cyfranogwyr yn gadarnhaol, ac roeddent yn cytuno bod cymryd rhan ym Mhanel y Dinasyddion wedi rhoi mwy o wybodaeth iddynt am y pwnc, wedi meithrin eu hyder i fynegi safbwyntiau amgen ac wedi eu gwneud yn fwy parod i gymryd rhan mewn mentrau ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol. Mae'r siartiau isod yn dangos yr adborth a gafwyd gan 11 aelod o'r panel a oedd yn barod i'r wybodaeth hon gael ei rhannu:


O ganlyniad i gymryd rhan yn y Panel Dinasyddion hwn, rwyf nawr yn teimlo'n fwy gwybodus am system lywodraeth ddemocrataidd a thirwedd cyfryngau Cymru




O ganlyniad i gymryd rhan yn y Panel Dinasyddion hwn, rwyf nawr yn teimlo'n fwy hyderus i fynegi fy marn a chymryd rhan mewn democratiaeth Cymru.



I ba raddau ydy'r broses wedi eich galluogi i glywed persbectifau sy'n wahanol i'ch rhai eich hun?



O ganlyniad i gymryd rhan yn y Panel Dinasyddion hwn, pa mor debygol fyddech chi i gymryd rhan mewn proses debyg yn y dyfodol?



CYFEIRIADAU

BBC (2022). *Online safety bill to return as soon as possible*. Ar gael yn:
<https://www.bbc.co.uk/news/technology-62908598>

Cyngor Llyfrau Cymru (2022). *Cyhoeddi Enwau Derbynwyr Grant Cynulleidfaoedd Newydd*.
Ar gael yn: <https://llyfrau.cymru/cyhoeddi-enwau-derbynwyr-grant-cynulleidfaoedd-newydd/>

Gyrfa Cymru, *How to become: Journalist* (2022), Ar gael yn:
<https://careerswales.gov.wales/job-information/journalist/how-to-become>

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (2021). *Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?* Ar gael yn:
<https://senedd.cymru/media/zilcozea/cr-ld14207-w.pdf>

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, *Our Voices Heard* (2018). *Young people's ideas for political education in Wales*, Ar gael yn: <https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/our-voices-heard-young-peoples-ideas-for-political-education-in-wales/#sub-section-3>

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol (2020). *Teaching politics in our schools should be a necessity not an option*, Ar gael yn: <https://www.electoral-reform.org.uk/teaching-politics-in-our-schools-should-be-a-necessity-not-an-option/>

Llywodraeth EF (2013). *Royal Charter on Self-Regulation of the Press*. Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/254116/Final_Royal_Charter_25_October_2013_clean_Final_.pdf

Llywodraeth EF (2022). *The Online Safety Bill*. Ar gael yn:
<https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0121/220121.pdf> (Cyrchwyd: 06 Medi 2022).

Howells, R (2015). *Journey to the centre of a news black hole: examining the democratic deficit in a town with no newspaper*. Traethawd Hir Doethuriaeth, Prifysgol Caerdydd.

Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (2022). *Revealed: Trust in politicians at lowest level on record*, Ar gael yn: <https://www.ippr.org/news-and-media/press-releases/revealed-trust-in-politicians-at-lowest-level-on-record/>

Involve, *Standards for Citizens Assemblies* (2022), Ar gael yn:
<https://involve.org.uk/resources/knowledge-base/how-do-i-setup-citizens-assembly/standards-citizens-assemblies>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). *Trust in Government: UK, 2022*.
Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/trustinggovernmentuk/2022>

Y Bartneriaeth Llywodraeth Agored (2021). *Actions for Transparent and Accountable Digital Governance*. Ar gael yn:

<https://www.opengovpartnership.org/actions-for-transparent-and-accountable-digital-governance/>

Cymwysterau Cymru (2021) *Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Y dewis cywir i Gymru – Ein Penderfyniadau*, Ar gael yn: <https://www.qualificationswales.org/media/7984/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol-ein-penderfyniadau.pdf>

Cymwysterau Cymru (2021) *Ail-lunio'r cynnig cymwysterau 14-16 ehangach yng Nghymru*,

Ar gael yn: <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol---dweud-eich-dweud/cynnig-ehangach/>

Llywodraeth Cymru (2019, diweddarwyd 2022) *Cwricwlwm i Gymru: Y Dyniaethau, Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig*, Ar gael yn:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

Llywodraeth Cymru (2021), *Cynyddu cyfleoedd i gymunedau ethnig amrywiol ym maes ffilmiau a theledu*. Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/cynyddu-cyfleoedd-i-gymunedau-ethnig-amrywiol-ym-maes-ffilmiau-theledu>

Llywodraeth Cymru (2021) *Y Cytundeb Cydweithio*, Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cytundeb-cydweithio-2021.pdf>



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU